Asesiad Effaith Integredig - Cymwys ar gyfer y dyfodol

Hydref 2019

1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r asesiad effaith integredig o'n cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad – Cymwys ar gyfer y dyfodol.

1.2. Gan ddilyn dull integredig o asesu effaith, mae'r ddogfen hon mewn tair rhan ac mae'n cynnwys ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh), Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

1.3. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh) yn asesiad o effeithiau tebygol ein gweithgarwch rheoleiddio. Mae'n rhaid i ni gynnal ein gweithgareddau rheoleiddio mewn ffordd sy'n dryloyw, yn atebol, yn gymesur, wedi'i dargedu ac sy'n gyson, ac sy'n ystyried polisi'r Llywodraeth yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru.

1.4. Drwy ein AERh, rydym yn dangos ein bod yn rheoleiddio yn unol â'n prif nodau, a'r wyth mater y mae'n rhaid i ni eu hystyried, fel yr amlinellir yn Neddf Cymwysterau Cymru (2015)[1], yn ogystal ag yn unol ag egwyddorion rheoleiddio gwell[2] a chanllawiau Trysorlys EM.

1.5. Rydym wedi cynnal asesiad effaith integredig ar y prif gynigion a nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad. Ar y cyfan, rydym wedi asesu bod manteision posibl y newidiadau arfaethedig yn drech na'r anfanteision. Yn hynny o beth, credwn mai'r hyn yr ydym yn ei gynnig yw'r dull cywir o weithredu a'i fod yn gymesur.

1.6. Mae'n bwysig nodi bod natur strategol y cynigion yn golygu y bydd mwy o waith manwl i ddilyn ar ôl yr ymgynghoriad hwn. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein AERh wrth i ni fireinio a datblygu ein dull o weithredu.

1.7. Rydym wedi cynnwys cwestiynau yn y brif ddogfen ymgynghori ar yr effeithiau a nodwyd gennym, ac rydym yn croesawu adborth arnynt.

[1] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/contents/wales/enacted/welsh

[2] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/735587/better-regulation-framework-guidance-2018.pdf

2. Dulliau a Ffynonellau

2.1. Rydym wedi defnyddio llawer o ffynonellau tystiolaeth i gynnal yr asesiad effaith hwn. Ystyriwyd effaith ein dull gweithredu arfaethedig drwy gydol y broses o ddatblygu ein hymgynghoriad - Cymwys ar gyfer y dyfodol.

2.2. O ran data, rydym wedi defnyddio QiW[3], ein cronfa ddata cymwysterau, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a'r Cyfrifiad Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) i nodi'r effaith bosibl ar lefel y gweithgarwch ar gyfer cymwysterau perthnasol.

2.3. Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi dadansoddiad o'r prif weithgareddau a gwblhawyd gennym:

- ymchwil ddesg gan gynnwys adolygiad o lenyddiaeth;
- ymchwil ansoddol (cyfweliadau) gyda rhanddeiliaid;
- cyfarfodydd â rhanddeiliaid, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar asesiad effaith y cwricwlwm newydd er mwyn cytuno ar y cwmpas (gweler adran 3: Cwmpas yr Asesiad Effaith);
- casglu data a dadansoddi'r ddarpariaeth a'r nifer sy'n manteisio ar y cymwysterau presennol sydd ar gael i bobl ifanc 16 oed;
- gweithdai mewnol i:
    - ddatblygu ac arfarnu opsiynau polisi;
    - nodi effeithiau tebygol ar grwpiau a allai gael eu heffeithio, a
    - asesu effaith peidio â chymryd unrhyw gamau.
- dadansoddi data a gasglwyd o'n hymgysylltiad cynnar â rhanddeiliaid o bob rhan o Gymru, gan gynnwys staff addysgu, arweinwyr ysgolion a cholegau, consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru ac Estyn.

[3] https://www.qiw.cymru/

3. Cwmpas yr Asesiad Effaith

3.1. Dim ond y cynigion sy'n cael eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori y mae'r asesiad effaith hwn yn mynd i'r afael â nhw:

- Sefydlu set o egwyddorion i lunio sut y byddwn yn penderfynu pa gymwysterau a gymerir yn 16 oed sy'n gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus.
- Ailddylunio cymwysterau TGAU fel eu bod yn ffurfio rhan ganolog o'r cynnig cymwysterau ar gyfer dysgwyr 16 oed yng Nghymru.
- Cynnwys cymhwyster penodol sy'n cefnogi datblygu ac asesu'r sgiliau ehangach a ddiffinnir yn y cwricwlwm newydd, fel rhan o'r cynnig cymwwysterau.

3.2. Mae unrhyw benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru, Estyn a gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol eraill y tu allan i gwmpas yr asesiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, penderfyniadau sy'n ymwneud â chynllun, strwythur a chynnwys y cwricwlwm newydd, ac unrhyw drefniadau newydd o ran gwerthuso a gwella ysgolion (atebolrwydd).

3.3. Wrth i ni adolygu pa gymwysterau y bydd angen iddynt fod ar gael ar gyfer pobl ifanc 16 oed yn y dyfodol, byddwn hefyd yn parhau i gynnal amrywiaeth o weithgareddau rheoleiddio craidd. Er enghraifft, byddwn yn parhau i gynnal ein gweithgareddau monitro ac archwilio ar draws yr holl gyrff dyfarnu cydnabyddedig a'r ystod o gymwysterau y maent yn eu cynnig. Rydym o'r farn bod y gweithgareddau rheoleiddiol hyn yn rhai cyffredin ac felly nid ydynt yn rhan o'r asesiad hwn.

3.4. Yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad cyntaf hwn, byddwn yn gwneud rhagor o waith i ddatblygu cynigion manylach. Mae'r rhain yn cynnwys:

- pa feysydd pwnc ddylai fod yn rhan o'r cynnig cymwysterau cyffredinol;
- gofynion dylunio cymwysterau yn y dyfodol;
- cynigion ar gyfer cymwysterau i gefnogi un continwwm ar gyfer dysgu ac addysgu Cymraeg;
- cynigion ar sut i asesu'r 'sgiliau ehangach' a ddiffinnir yn y cwricwlwm newydd; a'r
- gofynion rheoleiddiol y bydd eu hangen i roi ein gweledigaeth a'n hegwyddorion ar waith.

3.5. Wrth i ni ddatblygu'r cynigion manylach hyn, byddwn yn parhau i asesu eu heffaith debygol, fel y bo'n briodol.

4. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

4.1. Fel corff cyhoeddus, mae'n ofynnol i ni asesu effaith debygol, cadarnhaol a negyddol, y penderfyniadau rheoleiddio rydym yn eu cymryd. Fel rhan o'r asesiad hwn, mae'n rhaid i ni ystyried ystod o opsiynau, gan gynnwys asesiad o beidio â chymryd unrhyw gamau rheoleiddio ("gwneud dim").

4.2. Mae'r adran ganlynol yn nodi'r opsiynau a aseswyd wrth ystyried a ddylem wneud unrhyw newidiadau mewn ymateb i'r cwricwlwm newydd ai peidio. Amlinellir yr opsiynau hyn isod.

- **Opsiwn 1**: Gwneud dim - mae hyn yn golygu cadw ein trefniadau rheoleiddio presennol mewn perthynas â chymwysterau sy'n cael eu cymryd gan bobl ifanc 16 oed yng Nghymru.

- **Opsiwn 2**: Cyflwyno cynigion gyda'r nod o lunio'r cynnig cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn ystyried effeithiau tebygol y dewisiadau hyn, a hynny'n gadarnhaol ac yn negyddol.

4.3. Mae'n bwysig cydnabod o'r dechrau, pe baem ni'n gwneud dim, na fyddai hyn o anghenraid yn golygu y byddai popeth yn aros yr un fath. Mae ffactorau allanol yn golygu y byddai cymwysterau a system gymwysterau Cymru yn parhau i ddatblygu, hyd yn oed pe na baem yn cymryd unrhyw gamau rheoleiddio penodol mewn ymateb i'r cwricwlwm newydd. Gallai'r rhain gynnwys:

- cyrff dyfarnu yn cyflwyno cymwysterau newydd, yn diweddaru eu cymwysterau presennol a/neu'n tynnu cymwysterau yn ôl o'r farchnad gymwysterau;
- gallai newidiadau polisi yng Nghymru ac mewn mannau eraill arwain at newidiadau'n cael eu gwneud i gymwysterau gan gyrff dyfarnu;
- newidiadau a wneir i gymwysterau yn unol â'n gofynion i bob corff dyfarnu adolygu, a gwella lle y bo angen, ei ddull o ddatblygu cymwysterau, er mwyn sicrhau ei hun bod ei ddull o weithredu yn parhau i fod yn briodol bob amser; a
- cymwysterau'n cael eu datblygu a'u cyflwyno i'r system mewn ymateb i ganfyddiadau ein hadolygiadau sector.

Opsiwn 1: Gwneud dim

4.4 Byddai'r opsiwn o wneud dim yn golygu y byddai ein dull o reoleiddio cymwysterau a gymerir yn nodweddiadolgan bobl ifanc 16 oed yn aros yr un fath. Felly, ni fyddai unrhyw newidiadau i'r gofynion dylunio yn cael eu cyflwyno a byddai'r trefniadau rheoleiddio presennol yn parhau.

4.5 Mae manteision ac anfanteision yn gysylltiedig â pheidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r cymwysterau presennol a gynigir i bobl ifanc 16 oed yng Nghymru. Amlinellir y rhain isod.

Manteision

4.6. Bydd cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn golygu cyfnod sylweddol ac estynedig o newid ac addasu i ganolfannau. Mantais bosibl o wneud dim fyddai caniatáu rhywfaint o barhad yn y system addysg yn ystod y cyfnod hwn o newid sylweddol.

4.7. Byddai gwneud dim hefyd yn rhoi amser i staff addysgu ymgyfarwyddo â gofynion y cwricwlwm newydd, ac i ddatblygu eu harferion addysgu a dysgu yn unol â hynny. Mewn cyferbyniad, gallai datblygu teitl cymhwyster newydd amharu ar amser ac adnoddau athrawon o'r cwricwlwm newydd.

4.8. Yn ogystal, byddai gwneud dim yn rhoi mesur cyson o'r cwricwlwm newydd (ar ffurf cymwysterau cyfredol) ac yn darparu mecanwaith ar gyfer gwerthuso p'un a yw newidiadau i'r cwricwlwm ac ymagweddau addysgu mewn gwirionedd yn gwneud gwahaniaeth i safonau yng Nghymru.

4.9. Ar hyn o bryd mae cyflogwyr, sefydliadau addysgol a dysgwyr yn deall, yn gwerthfawrogi ac yn parchu cymwysterau TGAU yn dda. Byddai peidio â gweithredu yn golygu y byddai'r cymwysterau hyn yn parhau i roi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth dysgwr i'r rhanddeiliaid hyn. Tra byddai gwneud newidiadau mawr i gymwysterau presennol yn debygol o olygu y byddai angen amser i ennyn dealltwriaeth a hyder yr holl randdeiliaid yn y system gymwysterau.

Anfanteision

4.10. Mae nifer o anfanteision yn gysylltiedig â'r opsiwn 'gwneud dim'. Yn bennaf, os nad oes newidiadau'n cael eu gwneud i gymwysterau a gymerir gan bobl ifanc 16 oed, yna mae perygl bod y meddylfryd a'r arfer cyfredol o fewn y system addysg yn aros yr un fath. Gallai hyn yn ei dro rwystro ac arafu'r broses o roi'r cwricwlwm ar waith yn llawn gan ymarferwyr, a thrwy hynny danseilio ei nodau a'i bwrpasau. Gallai hyn

arwain at ddiffyg cysondeb rhwng y deilliannau dysgu arfaethedig, strategaethau addysgu, dulliau asesu a meini prawf asesu.

4.11. Mae cymwysterau sydd wedi hen ennill eu plwyf yn dod â llawer o dybiaethau ac ymddygiadau sy'n gysylltiedig â sut maen nhw'n gweithredu ac yn ymddangos yn y system addysg. Gallai peidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r cymwysterau hyn amharu ar awydd neu allu canolfan i wneud defnydd llawn o'r hyblygrwydd a gynigir gan y cwricwlwm newydd.

4.12. Mae sybsidiaredd wedi bod yn ganolog i ddatblygu'r cwricwlwm newydd, gydag athrawon yn cymryd rhan wrth gyd-lunio'r cwricwlwm. Mae risg y byddai'r opsiwn 'gwneud dim' ar gyfer cymwysterau yn cael ei ystyried yn un sy'n groes i'r ethos sybsidiaredd a fabwysiadwyd yn y broses o ddatblygu'r cwricwlwm.

Casgliad

4.13 O ganlyniad i gynnal yr asesiad effaith hwn, rydym yn fodlon nad yw gwneud dim yn opsiwn ymarferol. Felly, rydym o'r farn bod achos dros newid.

Opsiwn 2: Cyflwyno cynigion gyda'r nod o lunio'r cynnig cymhwyster ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru yn y dyfodol (yr opsiwn a ffefrir)

Cynnig 1: Sefydlu set o egwyddorion i lunio sut y byddwn yn penderfynu pa gymwysterau a gymerir yn 16 oed sy'n gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus

4.14 Rydym yn cynnig defnyddio dull wedi'i dargedu, sy'n seiliedig ar egwyddor, er mwyn penderfynu pa gymwysterau a gymerir gan bobl ifanc 16 oed a ddylai fod yn gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus yn y dyfodol. Un o fanteision allweddol y dull hwn o weithredu yw y byddai'n sicrhau bod y rhesymeg dros ein penderfyniadau yn gyson, yn dryloyw ac yn seiliedig ar egwyddorion cadarn y cytunwyd arnynt.

4.15 Un o nodau allweddol y cynnig hwn yw sicrhau bod cymwysterau yn cefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd yn effeithiol. Nid yw hyn yn golygu y dylai cymwysterau ddiffinio, neu ddylanwadu'n ormodol ar y cwricwlwm neu brofiadau dysgu rhwng 14-16 oed. Mae'n golygu y dylai cymwysterau ategu, hysbysu, atgyfnerthu a chefnogi'r system addysgu a dysgu yng Nghymru.

4.16 Er bod cymwysterau yn amlwg yn dylanwadu'n sylweddol ar yr hyn a addysgir, rydym am sicrhau bod cymwysterau pobl ifanc 16 oed yn amlwg yn cysylltu â dibenion y cwricwlwm newydd, a'u bod yn eu cefnogi. Un o fanteision defnyddio'r dull hwn fyddai'r gallu i ddylunio cymwysterau mewn modd a fyddai'n hybu profiadau dysgu ac addysgu cadarnhaol ac atyniadol. Gallai hyn yn ei dro gael effaith gadarnhaol ar sut mae canolfannau'n rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith.

4.17 Un o effeithiau tebygol cyflwyno egwyddor y dylai pob cymhwyster sy'n cael ei gymryd gan bobl ifanc 16 oed gefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm yw y gallai arwain at ddileu cymwysterau sy'n llai perthnasol o'r cynnig. Gallai hyn gael ei weld fel effaith gadarnhaol a negyddol.

4.18 Byddai sefydlu egwyddor sy'n ymwneud â sicrhau bod cymwysterau dwyieithog Dynodedig ar gael yn golygu y byddwn yn symud oddi wrth ein hymagwedd oddefol o anogaeth i un fwy rhagweithiol lle byddem yn ei gwneud yn ofynnol i'r cymwysterau hyn fod ar gael yn ddwyieithog yn y dyfodol.

4.19 Mae hyn yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr gan y byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn cael ei chydbwyso'n decach nag a geir

ar hyn o bryd. Byddai hefyd yn helpu i gefnogi nod polisi Llywodraeth Cymru o gael miliwno siaradwyr Cymraeg erbyn 2050[4].

4.20 Ar 31 Awst 2018, roedd 2,083 o gymwysterau a oedd yn gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus ac ar gael i ddysgwyr 16 oed[5]. Er bod hyn o bosibl yn darparu ystod eang o ddewis i ddysgwyr ac y gellid ei ystyried yn gadarnhaol, mae hefyd yn gwneud y tirlun cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru yn eithaf cymhleth, gyda llawer o gymwysterau'n gorgyffwrdd neu'n dyblygu ei gilydd.

4.21 Ni ellir disgwyl i ganolfannau gynnig yr holl gymwysterau hyn ac felly mae'r ystod o gymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr unigol mewn gwirionedd yn llawer llai na'r hyn y mae'r nifer cyffredinol yn ei awgrymu. Drwy'r asesiad effaith hwn, rydym wedi canfod bod llawer o'r cymwysterau hyn naill ai'n cael eu defnyddio gan ychydig iawn o ddysgwyr neu ddim dysgwyr o gwbl.

4.22 Mae Tabl 1 isod yn dangos, yn 2017-18, o'r 2,083 o gymwysterau a oedd ar gael ar gyfer dysgwyr 16 oed a oedd yn gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus, nid oedd unrhyw un wedi cofrestru ar gyfer 1,462 (70.2%) ohonynt, ac roedd rhwng un a phump wedi cofrestru ar gyfer 196 arall (9.4%), yn gynhwysol[6].

Tabl 1: Nifer y cymwysterau a ddosbarthwyd yn ôl y nifer a gwblhawyd gan ddysgwyr ym mlwyddyn 11 yn 2017-2018

Nifer y dysgwyr a wnaeth eu cwblhau	Nifer y Cymwysterau		
	Cymwysterau wedi'u Cymeradwyo	Cymwysterau Dynodedig	Cyfanswm
0	106	1,356	1,462
1-5	18	178	196
>6	26	399	425
Cyfanswm	150	1,933	2,083

Ffynhonnell Cronfa ddata Cymwysterau Cymru, data CDdAC CYBLD, o 31 Awst 2018

4.23 Mae'r cymwysterau sydd ar gael i bobl ifanc 16 oed yn newid yn rheolaidd wrth i lawer ohonynt gyrraedd diwedd eu cylch oes, gyda chymwysterau newydd neu rai

[4] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf
[5] Wedi'i gyfrifo o gronfa ddata Cymwysterau Cymru (QiW). Data a dynnwyd 31 Awst 2018. Wedi'i gyfrifo gan gymhwyster gyda naill ai 'Cymeradwyo' neu 'Ddynodi' yn y newidyn 'Math o Adolygiad' ac sydd â '-16 ' yn y newidyn 'Ystod Oedran' (nid o reidrwydd yr unig ystod oedran yn y newidyn hwn).
[6] Ffynhonnell y data yw data CDdAC-CYBLD Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017-18 ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 11. Mae'r ffigurau hyn yn cyfrif cofnodion lle y dyfarnwyd gradd, gan gynnwys 'U' (diddosbarth), ond heb gynnwys 'X' (h.y. nad oedd yn wedi sefyll neu'n methu data graddau, cofnod gwag/anghyflawn).

wedi'u diweddaru yn cymryd eu lle. Er enghraifft, o'r 1,933 o gymwysterau Dynodedig a oedd ar gael yn 2017-18, bydd 580 o'r rhain yn cael eu tynnu'n ôl gan gyrff dyfarnu cyn, neu yn ystod, y rhaglen hon o adolygu cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16 oed. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd cymwysterau eraill yn cael eu hymestyn, eu disodli gan gymwysterau tebyg, neu eu dileu'n gyfan gwbl lle nad oes galw amdanynt.

4.24 Rhwng 2017 a 2019, mae nifer y cymwysterau Dynodedig sydd ar gael wedi gostwng o 1,933 i 1,496 ac mae'n debygol y bydd y niferoedd hyn yn parhau i ddisgyn. Fodd bynnag, drwy gymhwyso ein hegwyddorion arfaethedig, byddwn yn gallu curadu a rheoli'r cynnig cymwysterau cyffredinol yn fwy rhagweithiol nag sy'n bosibl drwy ddibynnu ar rymoedd y farchnad yn unig.

4.25 Er bod manteision amlwg i'n dull arfaethedig o sicrhau bod yr ystod o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16 oed yn fwy syml, yn fwy cydlynol, yn haws i'w deall ac yn rhwyddach ei defnyddio, efallai y bydd rhai effeithiau negyddol posibl.

4.26 Er enghraifft, efallai fod rhai rhanddeiliaid o'r farn bod lleihau nifer y cymwysterau sydd ar gael i bobl ifanc 16 oed yn debygol o gael effaith negyddol, gan y bydd gan ganolfannau a gaiff arian cyhoeddus a dysgwyr lai o gymwysterau i ddewis ohonynt. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd uchod, mae gan lawer o'r cymwysterau hyn niferoedd eithriadol o isel, neu neb wedi cofrestru o gwbl, sy'n awgrymu mai bach iawn fyddai'r effaith wirioneddol ar y rhan fwyaf o ddysgwyr.

4.27 Fodd bynnag, wrth greu cynnig symlach a mwy cydlynol, rydym yn effro i'r angen i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle cyfartal i ddangos ei gyflawniad drwy'r broses asesu, heb unrhyw grŵp nac unigolyn dan anfantais. Er enghraifft, er y gallai'r nifer sy'n manteisio ar gymhwyster penodol fod yn isel iawn, os mai hwn oedd yr unig gymhwyster a/neu'r un mwyaf priodol i ddiwallu anghenion grŵp penodol o ddysgwyr, neu mewn maes sector arbenigol a oedd o werth i economi Cymru, yna gallai'r effaith fod yn fwy sylweddol.

4.28 Felly, wrth inni ddatblygu ein dull o bennu'r ystod o gymwysterau a ddylai fod yn gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus i ddysgwyr 16 oed yn y dyfodol, byddwn yn ystyried effaith ein penderfyniadau ar bob dysgwr, ac yn ystyried dibenion y cymwysterau hynny yn ofalus.

4.29 Mae'r data'n awgrymu bod nifer y dysgwyr wedi'u gwasgaru ar draws ystod eang o gymwysterau. Gallai hyn arwain weithiau at gyrff dyfarnu yn cystadlu am ddysgwyr ar gymwysterau tebyg, sydd yn ei dro yn gallu bod yn heriol i gyrff dyfarnu, yn ariannol ac yn weithredol.

4.30 Pe baem yn lleihau nifer y cymwysterau sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus, gallai hyn gael effaith ar incwm ffioedd rhai cyrff dyfarnu. Credwn y byddai'r effaith gyffredinol yn isel gan mai ychydig iawn o ardystiadau, os o gwbl, oedd gan tua 1,880 o'r 2,083 o gymwysterau. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol, pe bai cymhwyster â nifer fawr o ardystiadau yn cael ei dynnu'n ôl neu ei ddiddymu gennym ni, yna gallai hyn effeithio ar yr incwm a gynhyrchir gan gorff dyfarnu, ac ar ddysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwnnw.

Casgliad

4.31 I gloi, credwn fod effeithiau cadarnhaol ein cynnig yn gorbwyso'r opsiwn o wneud dim.

4.32 Bydd ein dull gweithredu arfaethedig yn helpu i sicrhau ystod fwy syml a chydlynol o gymwysterau. Bydd hefyd yn gwneud cymwysterau yn fwy hyfyw i gyrff dyfarnu ac yn rhoi mwy o werth am arian i ganolfannau.

4.33 Ni fyddai peidio â chymryd camau rheoleiddiol i lunio'r cynnig cymwysterau yn y dyfodol yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd gennym fel rhan o'r asesiad effaith hwn.

4.34 Mae peidio â gwneud dim hefyd yn peri risg nad yw cymwysterau a gymerir gan bobl ifanc 16 oed yn cefnogi dibenion y cwricwlwm newydd yn effeithiol. Yn yr un modd, ni fyddai gwneud dim yn sicrhau cysondeb rhwng y canlyniadau dysgu arfaethedig, strategaethau addysgu, dulliau asesu a meini prawf asesu.

4.35 Wrth ystyried argaeledd cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg, ni fyddai gwneud dim yn sicrhau'r cynnydd rydym am ei weld, nac yn cefnogi'r newid sylweddol sydd ei angen i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

Cynnig 2: Dylai cymwysterau TGAU sydd wedi'u hailddylunio fod yn rhan ganolog o'r cymwysterau a gynigir i ddysgwyr 16 oed yng Nghymru.

4.36 Gwyddom fod gwerth ac hygrededd cymwysterau yn dibynnu i raddau helaeth ar y graddau y cânt eu deall a'u cydnabod yn eang. Mae rhanddeiliaid, gan gynnwys colegau addysg bellach, prifysgolion a chyflogwyr yn deall lefel y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad y gellir eu disgwyl gan unigolyn sydd wedi ennill TGAU (Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd). Mae gofynion mynediad ar gyfer astudio pellach a chyflogaeth yn aml yn cael eu disgrifio yn y telerau hyn.

4.37 Mae cadw'r enw TGAU fel rhan ganolog o'r cynnig cymwysterau ar gyfer dysgwyr 16 oed yng Nghymru yn cynnig nifer o fanteision, a gaiff eu hamlinellu isod.

4.38 Mae'r enw TGAU yn dangos yn glir bod y cymhwyster yn cyd-fynd ag addysg uwchradd. Gall hyn gynorthwyo dealltwriaeth o'r lefel ddisgwyliedig o wybodaeth, sgiliau a phrofiad, yn arbennig yn rhyngwladol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod llwybrau dilyniant clir ar gael i ddysgwyr yn y dyfodol.

4.39 Mae'r enw TGAU yn rhoi cryn hyblygrwydd a photensial. Byddai cadw'r enw yn dal i ganiatáu i newidiadau gael eu gwneud i gynnwys, strwythur ac asesiad y cymwysterau hyn i gefnogi'r cwricwlwm newydd a hefyd yn ein galluogi i ymateb i anghenion sy'n newid dros amser. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys ymestyn y defnydd o e-asesu neu gynyddu'r defnydd o brosiectau sy'n adlewyrchu senarios bywyd go iawn o fewn cymwysterau TGAU penodol.

4.40 Mae cadw'r enw TGAU yn osgoi'r angen i ni ddatblygu math cyfan o gymhwyster newydd, a allai olygu cost sylweddol ar draws y system gymwysterau heb wireddu unrhyw fanteision gwirioneddol. Gellid hefyd ystyried bod y risgiau a'r heriau wrth symud i ffwrdd oddi wrth yr enw TGAU gwerthfawr a chydnabyddedig yn tynnu sylw diangen oddi ar y gwaith pwysig o sicrhau bod y cymwysterau eu hunain yn iawn ar gyfer dysgwyr.

4.41 Er bod llawer o fanteision i gadw'r enw TGAU, un effaith negyddol bosibl ar ddysgwyr a chanolfannau a ariennir yn gyhoeddus yw'r canfyddiad na fyddai llawer, os o gwbl, wedi newid yn y cymwysterau a gynigir oherwydd bod enw'r brand yn aros yr un fath.

4.42 Yn yr un modd, rydym yn ymwybodol bod cymwysterau TGAU yn dod â llawer o ragdybiaethau ac ymddygiadau sy'n gysylltiedig â sut mae'r cymwysterau hyn yn gweithredu ac yn ymddangos yn y system addysg ar hyn o bryd. Mae perygl y gallai

cadw'r enw TGAU rwystro awydd neu allu ysgol i wneud defnydd llawn o'r hyblygrwydd a gynigir gan y cwricwlwm newydd.

4.43 Fodd bynnag, credwn y gallai cyfathrebu clir ac effeithiol ynghylch sut y bydd y cymwysterau hyn yn wahanol yn y dyfodol helpu i liniaru'r effeithiau negyddol posibl hyn.

Opsiynau amgen

4.44 Wrth ddatblygu'r cynnig hwn, gwnaethon ystyried ddull mwy radical hefyd, sef datblygu cyfres o gymwysterau pwrpasol ar gyfer Cymru, a disodli'r enw TGAU â theitl hollol wahanol.

4.45 Un o fanteision dilyn dull o'r fath yw ei fod yn cynnig y potensial i ystyried rhai o hanfodion y system gymwysterau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- sut y caiff cyflawniadau a phrofiadau dysgwyr eu hadrodd;
- pryd fydd dysgwyr yn dechrau astudio ar gyfer y cymwysterau hyn;
- faint o amser y byddent fel arfer yn ei dreulio yn gwneud hynny;
- sut y caiff cymwysterau eu hasesu; ac
- a ellid ailstrwythuro cymwysterau i alluogi cyfuniadau o wahanol fodiwlau o wahanol feysydd pwnc i ffurfio un cymhwyster.

Fodd bynnag, am y rhesymau a amlinellir isod, teimlwn fod yr opsiwn hwn yn llai dymunol.

4.46 Mae'n bwysig cydnabod y byddai cymryd agwedd o'r fath yn newid sylweddol gyda chanlyniadau pellgyrhaeddol posibl ar draws y system addysg. Bydd angen amser ar y cwricwlwm newydd i ymsefydlu mewn canolfannau, a bydd angen i'r addysgu a'r dysgu esblygu. Yn hynny o beth, ni welwn unrhyw arwydd bod angen ailwampio mor radical ar yr holl brif gymwysterau a gymerir gan ddysgwyr 16 oed yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn ogystal, nid ydym yn credu ei bod yn briodol ystyried newid mor radical nes bod goblygiadau'r cwricwlwm newydd yn cael eu deall ymhellach.

4.47 Mae rhai risgiau sylweddol hefyd ynghlwm â disodli cymwysterau â'r enw TGAU gyda chyfres newydd, bwrpasol o gymwysterau. Mae hyn yn cynnwys yr angen am ymdrech hir a pharhaus i gyfathrebu ar raddfa fawr er mwyn i golegau, prifysgolion a chyflogwyr ddod yn gyfarwydd â'r cymwysterau newydd, eu deall ac, yn bwysicach fyth, fod â hyder ynddynt.

4.48 Yn ogystal, pe bai cymwysterau TGAU yn cael eu disodli, yna gallai dysgwyr fod o dan anfantais oherwydd diffyg dealltwriaeth a hyder nes bod y cymwysterau newydd wedi'u gwreiddio'n llawn a allai gymryd blynyddoedd lawer. Byddai heriau hefyd wrth

osod a chynnal safonau ar gyfer cyfres newydd, bwrpasol o gymwysterau a galluogi cysondeb a chymaroldeb â chymwysterau cyfredol.

Casgliad

4.49 Ar ôl cynnal yr asesiad effaith hwn, credwn fod manteision cadw'r enw TGAU, ac ailddylunio'r cymwysterau hyn i sicrhau eu bod yn cefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd yn gorbwyso'n sylweddol y rhai a adnabuwyd mewn perthynas â chymryd dull amgen, mwy radical. Yn ogystal â manteision addysgol cadw'r enw TGAU, mae manteision sylweddol i'r dull hwn o ran cost o'i gymharu â dylunio cyfres o gymwysterau newydd pwrpasol.

Cynnig 3: Mae cymhwyster penodol sy'n cefnogi datblygu ac asesu'r sgiliau ehangach a ddiffinnir yn y cwricwlwm newydd i Gymru yn rhan o'r cynnig cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16 oed.

4.50 Mae'r cwricwlwm newydd yn cyfeirio at bwysigrwydd y 'sgiliau ehangach'[7] sef

- meddwl yn feirniadol a datrys problemau;
- cynllunio a threfnu;
- creadigrwydd ac arloesedd; ac
- effeithiolrwydd personol.

4.51 Asesir y sgiliau hyn ar hyn o bryd yn y Dystysgrif Her Sgiliau[8], y mae bron pob dysgwr 16 oed yng Nghymru yn ei hastudio.

4.52 Byddai cadw cymhwyster penodol sy'n cefnogi'r broses o ddatblygu ac asesu'r sgiliau hyn yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu'r sgiliau hyn hyd at 16 oed.

4.53 Yn ddiweddar, rydym wedi adolygu'r Dystysgrif Her Sgiliau ac wedi canfod ei bod yn gymhwyster gwerth chweil sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ennill sgiliau bywyd go iawn a datblygu eu diddordebau drwy ddewis meysydd astudio sy'n berthnasol iddyn nhw[9].

4.54 Roedd dysgwyr ac athrawon yn gadarnhaol am egwyddorion y Dystysgrif Her Sgiliau ac ystyriwyd bod y sgiliau ehangach yn werthfawr ar gyfer cyflogadwyedd yn y dyfodol ac astudio ymhellach. Ar ben hynny, mae gofynion rhesymol cyflogwyr a hybu twf cynaliadwy yn economi Cymru yn rhan o'r wyth mater y mae'n ofynnol i ni eu hystyried yn ein Deddf. Felly, o ystyried sut mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn ategu sgiliau ehangach y cwricwlwm newydd, credwn fod llawer o fanteision i ailddylunio'r cymhwyster hwn i fod yn rhan o'r cynnig cymwysterau yn y dyfodol ar gyfer pobl ifanc 16 oed.

4.55 Nododd ein hadolygiad hefyd agweddau ar y cymhwyster presennol a allai elwa o gael eu datblygu ymhellach. Ni fyddai gwneud dim gyda chynllun cyfredol y

---

[7] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/canllaw-i-gwricwlwm-i-gymru-2022/#elfennau-ac-ystyriaethau-trawsbynciol-eraill

[8] Mae rhagor o wybodaeth am y Dystysgrif Her Sgiliau gyfredol ar gael yma: https://www.wjec.co.uk/qualifications/welsh-baccalaureate/welsh-bacc-from-2015/ks4-national-foundation/1.+welsh-baccalaureate-specification-KS4-National-Foundation-CYMRAEG+09+05+17.pdf

[9] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/crynodeb-gweithredol-adroddiad-bagloriaeth-cymru/

cymhwyster neu ddileu cymhwyster penodol o'r cynnig cyffredinol yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

4.56 Byddai ailddylunio'r Dystysgrif Her Sgiliau yn ein galluogi i fynd i'r afael â'r agweddau hyn, gan gynnwys ystyried sut y gallai'r model dylunio ac asesu fod yn symlach ac yn fwy dibynadwy, tra hefyd yn ddichonadwy ac yn ennyn diddordeb dysgwyr.

4.57 Byddai ailddylunio hefyd yn rhoi'r cyfle i ni sicrhau bod y cymhwyster hwn yn cefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd, yn enwedig y sgiliau ehangach y bydd eu hangen i baratoi dysgwyr ar gyfer bywyd modern a'r gweithle.

4.58 Rydym yn ymwybodol bod angen buddsoddiad sylweddol gan gyrff dyfarnu i ailddylunio unrhyw gymhwyster. Hyd nes y cytunir ar y graddau y bydd angen ailddylunio'r cymhwyster, nid yw'n bosibl cyfrifo'r costau a fydd yn codi fel rhan o'r buddsoddiad hwn.

4.59 Nid ydym yn rhagweld y byddai'r costau hyn yn fwy na'r rhai a delir drwy ailddylunio cymwysterau tebyg o ran eu math a'u diben. Yn ogystal, gellir adennill costau ailddylunio'r cymhwyster yn ystod ei oes, gan liniaru'r effaith hon. Byddwn yn parhau i ystyried yr effaith debygol wrth i ni ddatblygu ein cynigion ar gyfer ailddylunio'r cymhwyster hwn ymhellach.

4.60 Rydym hefyd yn ymwybodol o'r ffaith, wrth ailddylunio cymhwyster, bod angen rhoi ystyriaeth benodol i sicrhau bod tegwch yn y cymhwyster yn cael ei gynnal dros amser. Fodd bynnag, mae hyn yn rhywbeth y mae cyrff dyfarnu wedi arfer ei reoli ac mae'n ofynnol iddynt ei reoli. Wrth ailddylunio'r cymhwyster penodol hwn, byddem yn gweithio ochr yn ochr â chyrff dyfarnu perthnasol i sicrhau bod mesurau lliniaru priodol ar waith.

4.61 Rydym hefyd wedi ystyried yr ymrwymiad amser a chost a fyddai'n ofynnol gan ganolfannau ac athrawon pe bai cymhwyster newydd neu un wedi'i ailddylunio yn cael ei weithredu.

4.62 Er mwyn lliniaru'r effeithiau negyddol posibl hyn, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda chyrff dyfarnu perthnasol i sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu ac y byddai'n anelu i sicrhau bod y fanyleb ar gael ymhell cyn y dyddiad gweithredu.

4.63 Byddwn hefyd yn datblygu unrhyw gynigion manwl ar y cyd â rhanddeiliaid, gan gynnwys athrawon, i ddeall yr effaith ar addysgu a dysgu, a byddwn yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid hyn i gyfleu newidiadau yn glir.

Opsiynau amgen ar gyfer datblygu ac asesu'r sgiliau ehangach a ddiffinnir yn y cwricwlwm newydd

4.64 Wrth ddatblygu'r opsiwn a ffefrir gennym, gwnaethom hefyd ystyried yr opsiynau canlynol. Fodd bynnag, am y rhesymau a amlinellir isod, rydym yn teimlo bod y rhain yn llai dymunol.

Opsiwn A - Nid yw'r sgiliau ehangach a ddiffinnir yn y cwricwlwm newydd yn nodwedd o gymwysterau ar gyfer dysgwyr 16 oed

4.65 Gellir crynhoi dibenion y cwricwlwm newydd i Gymru wrth baratoi plant a phobl ifanc ar gyfer dysgu, bywyd a gwaith, nawr ac yn y dyfodol. Rhan hanfodol o hyn yw datblygu'r sgiliau ehangach a ddiffinnir yn y cwricwlwm newydd; sef meddwl yn feirniadol a datrys problemau, creadigrwydd ac arloesedd, cynllunio a threfniadaeth ac effeithiolrwydd personol.

4.66 Er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu'r sgiliau hyn hyd at 16 oed, dylent fod yn rhan o'r cynnig cymwysterau. Os nad ydynt yn cael eu cynnwys mewn cymwysterau, mae perygl bod addysgu a dysgu'r sgiliau hyn yn cael eu dadflaenoriaethu o blaid y dysgu a'r profiadau sy'n ofynnol ar gyfer y cymwysterau y mae dysgwyr yn paratoi ar eu cyfer. Mewn geiriau eraill, bydd cynnwys datblygu'r sgiliau hyn mewn cymhwyster penodol yn helpu i sicrhau bod yr amser a'r sylw priodol yn cael ei roi iddynt wrth i ddysgwyr wneud cynnydd ar hyd eu siwrnai ddysgu eu hunain tuag at bedwar diben y cwricwlwm.

Opsiwn B - Mae sgiliau ehangach yn y cwricwlwm newydd wedi'u hymgorffori mewn cymwysterau eraill, yn hytrach na chael eu datblygu a'u hasesu trwy gymhwyster penodol.

4.67 Un o rinweddau allweddol defnyddio dull o'r fath fyddai y byddai'n annog ac yn cefnogi integreiddio'r sgiliau ehangach hyn ar draws y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) y trefnir y cwricwlwm o'u hamgylch.

4.68 Byddai gweithredu fel hyn hefyd yn rhyddhau amser y cwricwlwm i alluogi dysgwyr i ddilyn cymwysterau neu brofiadau addysgol eraill o fewn amserlen yr ysgol.

4.69 Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd uchod yn y rhesymeg dros yr opsiwn a ffefrir gennym, canfu ein hadolygiad diweddar o'r Dystysgrif Her Sgiliau fod yna gefnogaeth gan athrawon, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill i gymhwyster sy'n datblygu ac yn asesu'r sgiliau hyn. Mae cyflogwyr yn dweud yn gyson fod ar bobl ifanc angen y sgiliau hyn i lwyddo yn y gweithle a'u bod hefyd yn cael eu gwerthfawrogi gan golegau addysg bellach a phrifysgolion.

4.70 Mae'r ffaith bod cymhwyster penodol ar gael yn galluogi dysgwyr i ddangos tystiolaeth glir o'u profiad a'u cyrhaeddiad wrth ddatblygu'r sgiliau hyn, ac mae gan gyflogwyr ddealltwriaeth gliriach o'r safon y gallant ei disgwyl.

4.71 Gall datblygu ac asesu'r sgiliau hyn trwy gymhwyster penodol hefyd gynorthwyo dealltwriaeth athrawon a dysgwyr o'r sgiliau hyn, a gwerth eu datblygu. Mae perygl, drwy eu hymgorffori mewn cymwysterau eraill, nad yw dysgwyr yn glir ynghylch y sgiliau y maen nhw'n eu datblygu a phryd.

4.72 Er bod ein hadolygiad o'r Dystysgrif Her Sgiliau wedi nodi angen i wella cyfleoedd hyfforddi i athrawon, roedd y rhai a gymerodd ran yn yr adolygiad o'r farn eu bod yn dod yn fwy hyderus wrth gyflwyno'r cymhwyster. Bydd bodolaeth cymhwyster sy'n datblygu ac yn asesu sgiliau ehangach yn galluogi rhai athrawon i barhau i ganolbwyntio ar y cymhwyster hwn, a datblygu eu sgiliau a'u hyder ymhellach wrth ei gyflwyno. Pe bai'n cael ei wreiddio mewn cymwysterau eraill, mae perygl na fyddai pob athro/athrawes yn barod i gyflwyno'r addysgu gofynnol ac asesu'r sgiliau hyn i'r un safon.

4.73 Un o gryfderau'r Dystysgrif Her Sgiliau yw ei bod yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau hyn trwy astudio pynciau sy'n bersonol berthnasol iddyn nhw. Byddai'n anoddach cynnal hyn pe bai'r sgiliau'n cael eu datblygu fel rhan o gymwysterau eraill.

4.74 Ar ben hynny, mae cael cymhwyster sy'n asesu'r sgiliau ehangach yn y cwricwlwm yn adlewyrchu eu pwysigrwydd. Felly, byddai peidio â chael cymhwyster sy'n rhoi sylw i'r sgiliau ehangach hyn yn gyfle a gollwyd.

4.75 Yn olaf, mae'n bwysig cofio hefyd na fydd pob dysgwr yn dilyn yr un ystod neu'r un mathau o gymwysterau yn 16 oed. Felly, bydd yn anodd sicrhau dull cyson o ddatblygu'r sgiliau hyn ar draws cymwysterau. Gallai hyn arwain at anghysonderau yn y sgiliau y mae dysgwyr yn eu hennill.

Casgliad

4.76 I gloi, credwn fod manteision ailddylunio'r Dystysgrif Her Sgiliau fel cymhwyster penodol sy'n cefnogi'r broses o ddatblygu ac asesu'r sgiliau ehangach hyn yn drech na'r effeithiau tebygol o gymryd dull 'gwneud dim', a'r opsiynau amgen a nodwyd uchod.

5. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

5.1 Sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 y gofyniad i gyrff y sector cyhoeddus baratoi Cynlluniau Iaith Gymraeg a darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Dilynwyd hyn yn 2011 gyda chyflwyno Mesur y Gymraeg (Cymru)[10].

5.2 Rhoddodd y Mesur hwn statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a chyflwynodd dyletswyddau ar gyrff i ddefnyddio'r Gymraeg fel y disgrifir yn Safonau'r Gymraeg. Cyflwynodd hefyd yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

5.3 Wrth ystyried yr hyn sy'n briodol at ddibenion cyflawni ein prif nodau, mae'n rhaid i ni ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, (gan gynnwys trwy argaeledd asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg) a chymwysterau sydd fel arall yn hyrwyddo neu'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

5.4 Yn unol â'n cynllun iaith Gymraeg[11] ac ymrwymiad i'r iaith Gymraeg, rydym yn asesu effaith bosibl (cadarnhaol a negyddol) ein penderfyniadau rheoleiddio ar y Gymraeg.

5.5 Yn yr adran hon rydym yn ystyried y goblygiadau y gallai ein cynigion eu cael ar y Gymraeg. Drwy ein hymgynghoriad, byddwn yn ceisio ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg (gan gynnwys dysgwyr) ac yn annog pob ymatebydd i roi adborth ar ein hasesiad.

5.6 Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi nodi ein hymrwymiad i sicrhau bod cymaint o gymwysterau â phosibl ar gael i ddysgwyr 16 oed yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym yn bwriadu gwneud hyn drwy symud o'n hymagwedd bresennol o anogaeth i'w gwneud yn ofynnol i'r cymwysterau hyn fod ar gael yn ddwyieithog yn y dyfodol.

5.7 Credwn y bydd y cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, am y rhesymau canlynol:

- bydd y weledigaeth yr ydym wedi'i gosod ar gyfer y cymwysterau a gymerir gan bobl ifanc 16 oed yn sicrhau dewis teg, cydlynol a dwyieithog;
- byddwn yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i bob cymhwyster a ddatblygir yn benodol ar gyfer Cymru yn y dyfodol fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg; a
- bydd mabwysiadu egwyddor sy'n ei gwneud yn ofynnol i gymwysterau a gymerir gan bobl ifanc 16 oed fod ar gael yn ddwyieithog yn y dyfodol yn

[10] http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh
[11] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/qualifications-wales-welsh-language-scheme-july-2019/

cyfrannu at bolisi Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

5.8 Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol tebygol ar y Gymraeg o'r cynigion a geir yn y ddogfen ymgynghori hon. Fodd bynnag, gallai fod effaith negyddol ar nifer y cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus sydd ar gael i bobl ifanc 16 oed os bydd rhai cyrff dyfarnu yn anfodlon neu'n methu sicrhau bod eu cymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

6. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Fel corff cyhoeddus, mae gennym ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010[12] i roi sylw dyledus wrth gyflawni ein swyddogaethau i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, yn enwedig yn erbyn y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig.

6.2 Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi sylw dyledus i'r angen i:

(i) ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf;
(ii) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu, a
(iii) meithrin cysylltiadau da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

6.3 Diben yr asesiad hwn yw nodi a yw'r cynigion yn debygol o gael unrhyw effaith (cadarnhaol neu negyddol) neu effeithiau gwahanol ar wahanol grwpiau sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig a nodir gan y Ddeddf.

6.4 Rydym wedi ystyried effaith bosibl y cynigion a gynhwysir yn yr ymgynghoriad hwn ar unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ar hyn o bryd nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau ein cynigion (cadarnhaol na negyddol) ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig nac yn dioddef anghydraddoldeb o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, ond byddwn yn parhau i fonitro hyn.

6.5 Bydd yr egwyddorion rydym yn cynnig eu sefydlu yn sicrhau bod cymwysterau yn diwallu anghenion rhesymol pob dysgwr – gan sicrhau bod gennym ystod briodol o gymwysterau ar draws ystod wahanol o lefelau.

[12] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents

7. Y Camau Nesaf

7.1 Rydym yn annog ymatebwyr i ymgysylltu â'n hasesiad effaith, i roi adborth ar yr effeithiau a nodwyd gennym, a rhoi gwybod i ni os oes unrhyw rai eraill y mae angen i ni eu hystyried. Mae'n bwysig bod ein cynigion yn sylweddoli'r effeithiau cadarnhaol yr ydym am eu gweld ac yn lleihau unrhyw rai negyddol posibl gymaint ag y bo modd.

7.2 Wrth i'n cynigion gael eu datblygu ymhellach a'u cwblhau, gan ystyried yr adborth o'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn parhau i ddatblygu ein hasesiad effaith.